


# Ysgol Gymraeg Cwmbrân

Ffordd Henllys,
Cwmbrân,
Torfaen
NP44 4HB

Ffôn: 01633 483383
Ffacs: 01633 485178
www.ysgolgymraegcwmbran.co.uk

**Trefniadau CA2 2017-2018:**

Croeso'n ôl i flwyddyn arall yn Ysgol Gymraeg Cwmbrân. Mae dechrau'r flwyddyn yn amser prysur iawn ac felly, gobeithio bydd y pecyn hwn yn hwyluso pethau ychydig i chi rieni / gwarchodwyr. Mae llawer o bethau angen eu trefnu ar ddechrau'r flwyddyn felly ceir llawer o bethau pwysig yn y pecyn hwn. Gofynnwn yn garedig i chi ddarllen popeth yn ofalus a danfon unrhyw slipiau yn ôl at athro / athrawes eich plentyn erbyn y dyddiadau a nodwyd.

**Taflenni Gwybodaeth Bersonol:**

Er mwyn i ni sicrhau bod gennym ni'r wybodaeth ddiweddaraf am bob disgybl, gofynnwn yn garedig i chi ddanfon y ffurflen amgaeedig yn ôl at athro eich plentyn erbyn dydd Llun, Medi'r 11eg.

**Gwersi Ymarfer Corff:**

Ceir dwy wers ymarfer corff ym mhob dosbarth yn wythnosol. Bydd un wers yn y neuadd a bydd un wers tu fas, os ydy'r tywydd yn caniatáu. Gofynnwn yn garedig i chi sicrhau bod gan eich plentyn ddillad addas ar y ddau ddiwrnod os gwelwch yn dda. Gofynnwn yn garedig i chi sicrhau hefyd bod dim clustlysau ayyb gyda'ch plentyn ar y diwrnod. Bydd gwersi ymarfer corff eich plentyn ar ddydd ____________________ a dydd ____________________ .

**Cofnod Darllen:**

Mae pob plentyn yng NghA 2 yn derbyn llyfr cofnod darllen. Gofynnwn i chi ddarllen gyda'ch plentyn adref a chofnodi o leiaf unwaith yr wythnos fel bod cyswllt agos yn cael ei wneud rhwng y cartref a'r ysgol. Os ydy eich plentyn yn colli ei gofnod darllen, gofynnwn am £3 tuag at un newydd.

**Gwaith Cartref:**

Bydd eich plentyn yn derbyn gwaith cartref bob dydd Gwener a gofynnwn yn garedig am y gwaith cartref yn ôl erbyn y dydd Mawrth canlynol os gwelwch yn dda. Bydd y disgyblion yn derbyn gwaith cartref Mathemateg un wythnos a gwaith cartref iaith yr wythnos ganlynol.

**Clybiau ar ôl ysgol:**

Cynigir llawer o glybiau ar ôl ysgol i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2. Bydd y clybiau ar ôl ysgol yn dechrau yr wythnos sy'n dechrau **Hydref 9fed**. (Manylion i ddilyn.)

**Digwyddiadau'r wythnos ar wefan yr ysgol, Twitter (@ygcwmbran) a SCHOOP (10319):**

Cofiwch bod digwyddiadau'r wythnos i gyd yn cael eu rhoi ar wefan yr ysgol yn wythnosol. www.ysgolgymraegcwmbran.co.uk Gofynnwn yn garedig i chi edrych ar y wefan a Twitter yn wythnosol er mwyn sicrhau nad ydych yn colli unrhyw drefniadau. Ceir copi o'r fwydlen, dyddiadau tymor a pholisïau yma yn ogystal. **Cofiwch sicrhau eich bod yn dewis dosbarth newydd eich plentyn ar SCHOOP er mwyn derbyn y negeseuon perthnasol gan athro eich plentyn.**

**Nosweithiau Rhieni:**

Bydd y nosweithiau rheini cyntaf ar **nos Fawrth, Hydref 3ydd a nos Fercher, Hydref 4ydd**. Bydd cyfleoedd eraill yn ystod y flwyddyn i chi drafod cynnydd eich plentyn gyda'i athro yn ystod mis Chwefror, tymor y Pasg a diwedd y flwyddyn. Os oes rhywbeth yn codi'n ystod y flwyddyn, gofynnwn i chi drefnu i weld athro neu athrawes eich dosbarth trwy gysylltu gyda'r swyddfa.

**Dyddiadau pwysig i'w nodi:**

**Diwedd yr hanner tymor:** Dydd Gwener, Hydref 27ain.
**Diwrnod Hyfforddiant Mewn Swydd:** Dydd Llun, Tachwedd 6ed. (Dim ysgol i'r disgyblion)
**Diwedd y tymor:** Dydd Gwener, Rhagfyr 22ain.

**Aelodaeth yr Urdd ar gyfer 2017 - 2018:**

Bob blwyddyn, mae disgyblion CA2 yn cael cyfle i fod yn aelod o'r Urdd. Mae'r Urdd yn rhoi llawer o gyfleoedd i'r disgyblion dros y flwyddyn a gobeithiwn y bydd llawer o'r disgyblion yn manteisio ar y cyfle i fod yn aelod o'r Urdd unwaith eto eleni. Gall disgyblion sy'n aelodau o'r Urdd aros i glwb yr Urdd ar ôl ysgol ar ddydd Mercher. Bydd clwb yr Urdd ar gyfer blynyddoedd 3 a 4 un wythnos a chlwb yr Urdd ar

gyfer blynyddoedd 5 a 6 yr wythnos ganlynol. Pan mae'r disgyblion yn dod i Glwb yr Urdd, maent yn talu £1 bob wythnos; 50c tuag at y siop a 50c tuag at adnoddau ayyb.

Bydd disgyblion sy'n aelodau o'r Urdd hefyd yn cael cyfle i gymryd rhan mewn cystadlaethau chwaraeon sy'n cael eu trefnu gan yr Urdd e.e. criced i flwyddyn 4, cystadlaethau pêl-rwyd a rygbi, pêl-droed, mabolgampau ayyb. Bydd pawb sy'n cystadlu yn yr Eisteddfod, gan gynnwys y gwaith celf, angen bod yn aelodau o'r Urdd yn ogystal. Cost aelodaeth yr Urdd eleni yw £7 cyn Rhagfyr 1af. (Bydd hwn yn mynd lan i £8.50 ar ôl hynny.) Os ydy eich plentyn eisiau bod yn aelod o'r Urdd eleni, gofynnwn yn garedig i chi ddychwelyd yr arian a'r slip i Miss Passmore erbyn dydd Gwener, Hydref 13eg. ***Cofiwch bod disgyblion sy'n mynd i Langrannog wedi talu aelodaeth yr Urdd yn barod.***

**Llythyron Caniatâd:**

Bob blwyddyn, mae angen rhoi caniatâd ar gyfer llawer iawn o bethau gwahanol. Rydym wedi penderfynu rhoi un daflen i chi lofnodi ar ddechrau'r flwyddyn fel bod dim rhaid i chi ddanfon slip yn ôl bob tro. Byddwn yn dal i roi gwybodaeth i chi am dripiau ayyb pan fyddant yn digwydd.

**Lluniau ar wefan yr ysgol ac o gwmpas yr ysgol:**

O bryd i'w gilydd, byddwn yn tynnu lluniau o'r plant ar gyfer eu defnyddio yn yr ysgol. Bydd y lluniau weithiau'n cael eu defnyddio ar wefan yr ysgol, ac o gwmpas yr ysgol yn ogystal. Gofynnwn i chi rhoi caniatâd i ni dynnu llun o'ch plentyn i'w ddefnyddio ar wefan yr ysgol/o gwmpas yr ysgol.

**Caniatâd i ddefnyddio'r we yn yr ysgol:**

Gan ein bod wedi llunio polisi newydd am ddiogelwch ar y we yn cyd-fynd â'r Cwricwlwm newydd, byddwn yn gofyn am ganiatâd er mwyn i'ch plentyn ddefnyddio'r we o fewn gwersi yn flynyddol. Mae Technoleg Gwybodaeth bellach yn rhan allweddol o'r gwersi a gan fod angen defnyddio'r we yn aml ar gyfer ymchwil ayyb, gofynnwn yn garedig i chi roi caniatâd i'ch plentyn ddefnyddio'r we.

**Lluniau gan asiantaethau gwahanol:**

Weithiau, mae asiantaethau gwahanol yn dod i'r ysgol er mwyn cymryd lluniau o wahanol weithgareddau e.e. timoedd chwaraeon gwahanol ayyb. Weithiau, bydd pobl yn tynnu lluniau o'r disgyblion yn gwneud gwahanol weithgareddau. Mae hwn yn digwydd tu fas i'r ysgol ar adegau yn ogystal e.e. cystadlaethau'r Urdd ayyb.

**Ffilmio gan asiantaethau gwahanol:**

Weithiau, mae criw ffilmio yn dod i'r ysgol i ffilmio disgyblion e.e. criw ffilmio CYW a rhaglenni eraill. Mae hwn hefyd yn digwydd os ydy'r disgyblion yn mynd ar dripiau tu fas i'r ysgol. Gofynnwn yn garedig i chi rhoi eich caniatâd ar gyfer hwn fel bod dim rhaid i ni ofyn bob tro.

**Lluniau yn y papur newydd leol:**

Yn eithaf aml, mae papurau newydd lleol yn dod i'r ysgol i dynnu lluniau o weithgareddau gwahanol sy'n mynd ymlaen yn yr ysgol. Gofynnwn yn garedig i chi roi eich caniatâd dros hwn yn ogystal.

**Cyfrif Twitter yr ysgol: (@ygcwmbran)**

Yn achlysurol, rydym yn postio lluniau o wahanol weithgareddau ar gyfrif Twitter yr ysgol. Gofynnwn yn garedig i chi roi eich caniatâd ar gyfer hwn.

**Cerdded i fannau lleol:**

O bryd i'w gilydd, rydym yn mynd â'r plant i fannau sydd o fewn pellter cerdded i'r ysgol e.e. i'r gamlas neu i'r Eglwys. Fel nad oes rhaid i ni ofyn am ganiatâd bob tro, gofynnwn i chi lenwi'r ffurflen fel ein bod ni â'ch caniatâd chi am y flwyddyn.

**Teithio ar fws:**

Yn ystod y flwyddyn, efallai bydd y disgyblion yn teithio ar fws am resymau gwahanol e.e. i wers nofio, i gystadleuaeth pêl-droed ayyb. Fel bod dim angen gofyn am ganiatâd bob tro, gofynnwn i chi roi eich caniatâd am hwn. Byddwn wastad yn rhoi gwybod os ydy'ch plentyn am deithio ar fws.

**Teithiau i Wynllyw: (Blwyddyn 6 yn unig)**

Yn ystod y flwyddyn, bydd plant blwyddyn 6 yn mynd ar sawl taith i Wynllyw. Byddwn yn gadael i chi wybod am unrhyw ddyddiadau pan mae taith i Wynllyw ond ni fydd angen i chi lenwi slip caniatâd bob tro. Bydd y plant yn teithio ar fws i Wynllyw, a chyda gofal athro neu athrawes bob tro.

Gofynnwn yn garedig i chi ddanfon y ffurflen caniatâd yn ôl at athro neu athrawes eich plentyn erbyn **dydd Llun, Medi'r 11eg** os gwelwch yn dda.

---

**** I'w ddanfon yn ôl at athro / athrawes dosbarth eich plentyn os gwelwch yn dda. ****

**Llythyron Caniatâd: Os ydych chi'n rhoi eich caniatâd am y pethau isod, llofnodwch y golofn dde os gwelwch yn dda.**

**Enw disgybl: ____________________________ Dosbarth: ________________________________**

| Caniatâd dros: | Llofnod: |
|---|---|
| Lluniau ar wefan yr ysgol ac o gwmpas yr ysgol | |
| Caniatâd i ddefnyddio'r we yn yr ysgol | |
| Lluniau gan asiantaethau gwahanol | |
| Ffilmio gan asiantaethau gwahanol | |
| Lluniau yn y papur newydd leol | |
| Lluniau ar gyfrif Twitter yr ysgol | |
| Cerdded i fannau lleol | |
| Teithio ar fws | |
| Teithiau ar fws i Wynllyw (Blwyddyn 6 yn unig) | |

---

**Arian Aelodaeth yr Urdd 2017-2018 (£7.00):**

Os ydych chi eisiau i'ch plentyn fod yn aelod o'r Urdd eleni, danfonwch hwn yn ôl at Miss Passmore os gwelwch yn dda.

**Enw:** ______________________________________

**Dosbarth:** ______________________________________